| | |
|---|---|
| **Cyfarfod :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad:** | **16 Ionawr 2012** |
| **Testun:** | **Cynhadledd Safonau Cymru 2011** |
| **Pwrpas :** | **Cyflwyno gwybodaeth i'r aelodau am y Gynhadledd a cheisio barn am drefniadau'r Gynhadledd nesaf** |
| **Awdur:** | **Dilys Phillips, Swyddog Monitro** |

1. Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau Cymru 2011 yn Llandrindod ar 5 Hydref. Cyngor Sir Powys oedd trefnydd y gynhadledd.

2. Cynrychiolwyd Cyngor Gwynedd yn y gynhadledd gan y Cynghorydd Keith Greely-Jones, Mr Malcom Jones, Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Iwan Evans (Dirprwy Swyddog Monitro) a Sion Huws (Swyddog Priodoldeb). 'Roedd Mr Sam Soysa yn bresennol ar ran Pwyllgor Safonau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Hefyd yn bresennol oedd Katherine Owen, Clerc Cyngor Tref Caernarfon.

3. Atodaf raglen y gynhadledd ac fe welir ohoni y cafwyd sesiwn panel yn y bore a ffug wrandawiad yn y prynhawn.

4. Yn ei gyflwyniad eglurodd Peter Davies, Cadeirydd Panel Dyfarnu Cymru, mai ar-lein yn unig y cyhoeddir adroddiad blynyddol y panel eleni (gellir ei weld ar www.paneldyfarnucymru.org.uk). Edrychodd ar y tueddiadau o ran cyfeiriadau i'r Panel dros yr 8 mlynedd ddiwethaf gan nodi fod nifer yr achosion a gyfeiriwyd i'r Panel wedi cynyddu y llynedd. Nododd hefyd fod tueddiad gynyddol i gael cynrychiolaeth gyfreithiol gerbron y Panel a bod hyn yn arwain at wrandawiadau hir. Dymunai i'r Panel allu gweithredu ar sail holgar ("*inquisitorial*") yn hytrach na chyhuddgar ( "*accusatorial*").

5. Cafwyd nifer o ystadegau hefyd gan Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ond yn wahanol i'r cyfeiriadau i'r Panel, tueddiad at i lawr oedd yn nifer y cwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon, mewn perthynas â chynghorau cymuned a chynghorau sir fel ei gilydd. Soniodd hefyd am y fframwiath foesegol gan nodi'r pwyntiau canlynol:
    - Nad oedd y Côd yn cael ei ddefnyddio at y dibenion cywir bob amser.
    - Fod elfenau o'r Côd angen eu diwygio.
    - Ei fod wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru arwain grwp i edrych ar y posibilrwydd o gael trefn wahanol ar gyfer honiadau aelod ar aelod.

- Ei fod yn bryderus am gost tribiwnlysoedd a bod angen i awdurdodau lleol ystyried cyfyngu yr indemniad a roddir i aelodau.

6. Cyfarwyddwr Adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ydi Reg Kilpatrick. Eglurodd nad oedd gan y Llywodraeth unrhyw fwriad i ddeddfu ar faterion safonau yn y tymor hwn. Ei neges oedd y dylid gwneud i'r fframwaith bresennol weithio'n well. Nid oedd bwriad i ddilyn yr hyn oedd yn digwydd yn Lloegr; roedd y gweinidog o'r farn fod angen fframwaith statudol ar gyfer safonau ond bod rhai materion ynglŷn â'r broses i'w datrys. Credai fod y cyfrifoldeb am godi ymwybyddiaeth o'r côd ac ymddygiad, ac hefyd gyfrifoldeb am hunan-reolaeth, ar ysgywddau cynghorwyr. 'Roedd yntau'n bryderus am gost achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru neu bwyllgorau safonau.

7. Yn ei anerchiad ef cododd Clarence Meredith, Swyddog Monitro Cyngor Sir Powys, rai pwyntiau ynglyn â gweithrediad pwyllgorau safonau. Eglurodd fod Pwyllgor Safonau Cyngor Powys wedi edrych ar faterion buddiannau mewn ceisiadau cynllunio am ffermydd gwynt a bod eu arweiniad buan wedi bod o fudd i'r Cyngor. Ar fater ad-drefnu ysgolion roeddynt wedi rhoi goddefebau cyffredinol, heblaw lle roedd buddiant ariannol. Roeddynt hefyd yn ystyried monitro presenoldeb cynghorwyr mewn pwyllgorau. Cododd y cwestiwn a ddylid cael côd gwahanol i gynghorwyr cymuned.

8. Yn ail hanner y bore (sesiwn cwestiwn ac ateb) trafodwyd tri phwnc sef:
    a) Cost achosion gerbron y Panel Dyfarnu/Bwyllgor Safonau. Awgrymodd Peter Tyndall y dyld rhoi cap ar indemniad o £20,000.00. Roedd Peter Davies yn cytuno gyda'r egwyddor ar y sail fod trefn tribiwnlys i fod i ganiatau hunan-gynrychiolaeth, ond yn credu fod y swm a awgrymwyd llawer rhy uchel. Gwelwyd fod 2/3 o'r cynghorau hefo yswiriant i dalu'r costau a bod hyn yn cymhlethu'r syniad o gyfyngu'r indemniad.
    b) Trefn ddatrys anghydfod lleol. Awgrymodd Peter Tyndall bod rhai achosion, yn arbennig cwynion gan aelodau am aelodau, yn addas i'w datrys dan drefn lleol, allasai gynnwys disgyblaeth grwp. Roedd hyn yn digwydd yn barod mewn rhai cynghorau a gellid datblygu hynny i fframwaith genedlaethol. Roedd eraill o'r farm ei fod yn rhoi gormod o bwysau ar swyddogion monitro neu arweinyddion grwpiau ac na fyddai'n gweithio'n effetithiol ymhob Cyngor.
    c) Côd gwahanol neu newidiadau i'r Cod. Y prif bwynt a wnaeth oedd pwysigrwydd hyfforddiant, beth bynnag fo'r côd ac y dylai hyfforddiant fod yn orfodol.

9 Yn y sesiwm prynhawn, yn wahanol i'r blynyddoedd a fu, cafwyd ffug-wrandawiad, dan arweiniad Peter Keith Lucas o dwmni cyfreithiol Bevan Brittan. Rhai o'r pwyntiau ddaeth i'r amlwg oedd

a) Pwysigrwydd cael rhyw fath o rag-wrandawiad i reoli'r achos neu roi cyfarwyddiadau ar y drefn.
b) Pwysigrwydd rhoi rhesymau dros benderfyniad y pwyllgor (os nad oedd digon o dystiolaeth i ddod i gasgliad rhesymegol dylid gohirio'r gwrandawiad er mwyn cael rhagor o dystiolaeth).
c) Y dylid cael taflen o gwestiynau i'r pwyllgor fodloni ei hunain arnynt, a byddai'n fuddiol rhoi copi i'r partion ymlaen llaw.
ch) Y syniad o roi awgrym o'r math o gosb yr oedd y pwyllgor yn ei ystyried a gwahodd sylwadau gan y partion fel ple i liniaru.

10. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yma am amseriad na lleoliad y gynhadledd nesaf a gofynnir am farn y pwyllgor ar y ddau fater.

11. O ran amseriad, bydd etholiadau i'r cynghorau fis Mai 2012 gyda'r posibilrwydd y bydd rhywfaint o newid yn aelodaeth pwyllgorau safonau a'r tebygolrwydd o newid yn aelodaeth cynghorau. Disgwylir hefyd rai newidiadau i'r fframwaith safonau megis y drefn datrys angyhfod lleol. Byddai cynhadledd yn yr hydref yn amserol i gyflwyno'r materion hyn. Ar y llaw arall byddai aros tan wanwyn 2013 yn rhoi cyfle i bwyllgorau safonau gael profiad a byddai'n rhoi cyfnod eithaf o seibiant rhwng cynadleddau.

12. Trefnwyd y dair cynhadledd gyntaf gan Gyngor Sir Ceredigion yn Aberystwyth ac Aberaeron. Trefnwyd y dwy gynhadledd ddilynol gan Gyngor Sir a Dinas Caerdydd, yng Nghaerdydd ac 'roedd y gynhadledd ddiweddaraf yn Llandrindod wedi ei threfnu gan Gyngor Sir Powys. Yn gyffredinol mae cynadleddau yn y canolbarth yn haws i bawb deithio iddynt mewn diwrnod, er fod cynulleidfa dda yn y ddwy a drefnwyd yng Nghaerdydd. Nid oes cynhadledd wedi ei threfnu gan un o gynghorau'r Gogledd hyd yn hyn ac fe ellid ystyried rhannu'r faich trwy drefnu ar y cyd gydag un neu ragor o gynghorau.

**ARGYMHELLIAD**

13. Gofynnir i'r Pwyllgor

a) Nodi a derbyn yr adroddiad
b) Roi barn ar amseriad a lleoliad y gynhadledd nesaf.

# Cynhadledd Safonau Cymru 2011

## Gwella Safonau

**RHAGLEN Y GYNHADLEDD**
**DYDD MERCHER 5 HYDREF 2011**

| | |
|---|---|
| 9.15am – 9.50am | **Cofrestru – Te a choffi** |
| | |
| 9.50am – 10.00am | **Gair o groeso**<br>Prif Weithredwr – Cyngor Sir Powys, Jeremy Patterson |
| | |
| 10.00am – 10.50am | **Panel – Sesiwn 1** |
| | Cadeirydd Cymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr y Cynghorau – Kate Berry **Cadeirydd** |
| | Cadeirydd Panel Dyfarnu Cymru - Peter Davies |
| | Swyddfa’r Ombwdsmon Cymru - Peter Tyndall |
| | Swyddog Monitro – Clarence Meredith |
| | Llywodraeth Cymru - Reg Kilpatrick |
| | |
| 10.50am – 11.05am | **Te/coffi** |
| | |
| 11.05am – 12.30pm | **Panel – Sesiwn 2**<br>• Cwestiynau i’r Panel<br>• I drafod y cwestiwn ‘ Pa newidiadau fyddech chi’n eu gwneud i God Ymddygiad presennol Aelodau?’ |
| | |
| 12.30pm – 1.30pm | **Cinio** |
| | |
| 1.30pm – 3.00pm | **Gwrandawiad Ffug rhan 1** |
| | Peter Keith-Lucus |
| | |
| 3.00pm – 3.15pm | **Te/coffi** |
| | |
| 3.15 pm – 3.45pm | **Gwrandawiad Ffug rhan 2** |
| | |
| 3.45pm | **Cloi**<br>Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Powys - Peter Swanson |